Cyflymu Busnesau Cymru



# A ydych yn barod am ddyfodiad band eang cyflym iawn?

Busnes Cymru
Business Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# Cynnwys

Beth yn union yw band eang cyflym iawn? . . . . . . . . . . . . . 4
Pa mor gyflym yw cyflym iawn? . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 5
Beth fydd band eang cyflym iawn yn ei alluogi? . . . . . . . . . 6
Sut ydych yn dechrau arni? . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 7
Pa fanteision y gallwch chi eu disgwyl? . . . . . . . . . . . . . . . . 8
Awgrymiadau . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 10
Manylion cyswllt . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 12

# Band eang a busnes

Mae band eang wedi dod yn ofyniad safonol ar gyfer busnes. Mae band eang cyflym iawn yn cynnig dimensiynau ychwanegol at hynny, nid yn unig o ran cyflymder, ond hefyd o ran yr hyn y gellir ei wneud drwy ddefnyddio cysylltiad a dibynadwyedd y gwasanaeth. Mae band eang cyflym iawn yn golygu ei bod yn bosibl gwneud llawer mwy ar-lein.

Fodd bynnag, nid y dechnoleg sy'n bwysig, ond yr hyn rydych yn ei wneud â hi. Gall band eang cyflym iawn wneud llawer o brosesau busnes yn fwy effeithlon yn ogystal â'ch galluogi i gyflawni mwy i safon uwch, gan ymestyn eich cyrraedd a'ch potensial.



# Beth yn union yw band eang cyflym iawn?

Darperir band eang traddodiadol (a adnabyddir fel ADSL) drwy linellau ffôn copr, tra bod band eang cyflym iawn yn defnyddio ceblau ffibr optig sy'n ei wneud yn llawer cyflymach a mwy dibynadwy. Yng Nghymru, cyflymder cyfartalog band eang yw oddeutu 9Mbps ar hyn o bryd. Gall band eang cyflym iawn alluogi cyflymder o hyd at 330Mbps, gan drawsnewid byd gwaith i bobl ledled Cymru.

Mae'r union gyflymder a gewch chi hefyd yn dibynnu ar nifer o ffactorau ychwanegol megis hyd eich llinell o'r gyfnewidfa ffôn neu gabinet gwyrdd ymyl ffordd; ansawdd y llinell a'r offer, a'r gwifrau mewnol yn eich adeilad. Mae Cyflymu Cymru yn gweithio'n galed i sicrhau bod pawb yn cael y cyflymder gorau posibl o ystyried eu lleoliad daearyddol.

**I ddarganfod a allwch chi gael band eang cyflym iawn yn barod, neu i gael gwybod pryd fydd ar gael yn eich ardal chi, ewch i: www.superfast-cymru.com/where-and-when**

# Pa mor gyflym yw cyflym iawn?

Mae band eang cyflym iawn yn defnyddio ceblau ffibr optig i drosglwyddo cyflymderau uwch, mwy o le a dibynadwyedd uwch. Ar y cyfan, mae dwy ffordd o gyflenwi'r dechnoleg hon i fusnes neu ddefnyddiwr yn y cartref:



**Mae FTTC (cysylltiad ffibr i'r cabinet)** yn cyflenwi llinellau ffibr optig i'r cabinet yn y stryd ac yna drwy linellau ffôn copr presennol i'ch eiddo. Gall hyn gyflawni cyflymder o hyd at 80Mbps wrth lwytho i lawr.

**Mae FTTP (cysylltiad ffibr i'r adeilad)** yn cyflenwi llinellau ffibr optig yn uniongyrchol i'r adeilad, sy'n ei wneud yn gyflymach fyth. Gall hyn gynnig cyflymder llwytho i lawr o hyd at 330Mbps ar hyn o bryd.

Nid yw'r union gyflymder a gewch yn dibynnu ar eich lleoliad yn unig; ond fe'i heffeithir hefyd o bosibl gan y pecyn rydych yn ei brynu gan eich darparwr band eang cyflym iawn. Mae'n bwysig eich bod yn treulio ychydig o amser yn cymharu'r pecynnau a'r cyflenwyr i sicrhau eich bod yn dewis yr un iawn ar gyfer eich busnes.

# Beth fydd band eang cyflym iawn yn ei alluogi?

Drwy newid i fand eang cyflym iawn byddwch yn gallu defnyddio'r gwasanaethau cyfrifiadura cwmwl diweddaraf yn eich busnes. Mae cyfrifiadura cwmwl yn golygu defnyddio adnoddau TG (megis rhaglenni a lle storio) dros y rhyngrwyd yn hytrach na'u cael ar eich cyfrifiadur neu rwydwaith eich hun. Gall manteisio ar y gwasanaethau hyn ddod â buddion sylweddol i'ch busnes o ran effeithlonrwydd, cynhyrchiant ac arbedion cost. Mae gwasanaethau cwmwl yn aml yn cael eu disgrifio naill ai fel Meddalwedd fel Gwasanaeth (SaaS) neu Seilwaith fel Gwasanaeth (IaaS).

SaaS

**Gyda SaaS** ni fyddwch yn talu am raglenni meddalwedd cyn eu llwytho i lawr i gyfrifiadur neu eu gosod o CD. Yn lle hynny, byddwch yn cofrestru â chyflenwr meddalwedd sy'n cynnal y model SaaS neu gyda chwmni SaaS arbenigol, ac yna'n cyflawni eich gwaith o ddydd i ddydd gan ddefnyddio meddalwedd a gedwir ar eu gweinyddwyr. I ddefnyddio'r feddalwedd, codir ffi tanysgrifio ar sail y defnydd.

IaaS

**Gydag IaaS** rydych i bob pwrpas yn rhithwirio eich caledwedd, megis gweinyddwyr a lle storio. Felly, yn lle prynu gyriant disg newydd, mwy o faint, byddwch yn rhentu ychydig mwy o le ar y ddisg. Nid yn unig y bydd cynnal seilwaith TG ar y cwmwl yn arbed arian ar galedwedd, lle storio a gweinyddwyr, ond bydd hefyd yn lleihau biliau ynni.

# Sut ydych yn dechrau arni?



Y cam cyntaf yw gwirio argaeledd yn eich ardal yn:

**www.superfast-cymru.com/where-and-when**

**Gweithredwch yn awr: Bydd eich gwasanaeth band eang presennol yn parhau'r un fath oni bai eich bod yn uwchraddio i becyn band eang cyflym iawn.**

Ewch i **www.superfast-cymru.com/providers** i ddod o hyd i ddarparwr gwasanaeth rhyngrwyd a chofrestru am y pecyn gorau i chi. Nid yw pob darparwr yn cynnig yr un gwasanaeth, felly gwiriwch eu costau a chysylltedd i sicrhau eich bod yn cael y cysylltiad gorau ar gyfer eich busnes.

**Dylai uwchraddio fod yn broses syml:** bydd peiriannydd o'ch darparwr gwasanaeth rhyngrwyd yn galw ac yn gosod y caledwedd angenrheidiol (megis modem ffibr a llwybrydd) yn eich adeilad.

# Pa fanteision y gallwch chi eu disgwyl?

- **Cynyddu elw** – mae llai o dreuliau a mwy o ymgysylltiad â chwsmeriaid yn dod â mwy o elw.

- **Cynyddu cynhyrchiant** – gall cyflwyno gweithio hyblyg ganiatáu i staff fod yn gwy gweithgar a thrafod busnes gydag unrhyw un, unrhyw le, unrhyw bryd. Mae rhwydweithiau preifat rhithwir a defnyddio rhaglenni cwmwl eraill yn golygu bod gweithio gartref ac ar y lôn yn integredig ac yn gyson ar draws pob dyfais.



- **Cynyddu effeithlonrwydd** – mae band eang cyflymach yn rhoi llwyfan mwy dibynadwy a sefydlog i chi fel bod sawl defnyddiwr yn gallu rhannu'r un cysylltiad gwasanaeth heb arafu.

- **Arbed arian** – gostwng costau TG drwy ddefnyddio gwasanaethau cyfrifiadura cwmwl; defnyddio lle storio yn y cwmwl yn lle gweinyddwyr drud, gostwng costau ffôn drwy ddefnyddio Protocol Llais dros y Rhyngrwyd (VOIP), a gorbenion staff â gweithio hyblyg.






- **Gwella gwasanaeth cwsmeriaid** – cynnydd mewn ffyddlondeb cwsmeriaid drwy ddefnyddio meddalwedd rheoli cysylltiadau cwsmeriaid (CRM) y cwmwl a chyfryngau cymdeithasol i gysylltu â'ch cwsmeriaid a chyflenwyr. Mae dadansoddiad manwl yn caniatáu i chi gyfathrebu ar yr adeg maen nhw fwyaf tebygol o brynu.



- **Diogelu eich asedau** – diogelu eich data cwsmer, cynnyrch a masnachol yn hyderus gan ddefnyddio gwasanaethau diogelwch y cwmwl. Mae sicrhau bod gennych y feddalwedd ddiweddaraf ar gyfer eich busnes ynghyd â nodweddion megis ategu data yn ddi-oed yn dileu trafferthion diogelwch ac uwchraddio.



- **Helpu'r amgylchedd** – mae llai o deithio i'r swyddfa ac i gyfarfodydd wyneb yn wyneb yn golygu ôl troed carbon llai a defnyddio llai o danwydd. Mae newid i weinyddwyr rhithwir a gwasanaeth cyfrifiadura cwmwl yn golygu bod llai o angen am weinyddwyr sy'n defnyddio llawer o ynni ym mhob swyddfa, tra bod rhwydweithiau preifat rhithwir yn caniatáu i gyfrifiaduron busnes gael eu cynnal o bell, sy'n lleihau'r defnydd ynni, yn arbed arian ac yn helpu i warchod yr amgylchedd.



# Awgrymiadau

**Byddwch yn barod - mae'n fwy na'r dechnoleg yn unig**

Y gwahaniaeth mwyaf yw sut y gall wella'r ffordd rydych yn gwneud busnes. Hyd yn oed cyn i chi osod band eang cyflym iawn, gallwch ddechrau cynllunio sut rydych am wneud y mwyaf ohono. Ewch i'n gwefan: **www.business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales** i ddeall sut i fanteisio i'r eithaf ar Fand Eang Cyflym Iawn a thechnolegau'r cwmwl ar gyfer eich busnes.

**Ymchwiliwch i'r cwmwl**

Chwiliwch, a chymharwch, wasanaethau a all uwchraddio eich gallu neu arbed arian i chi ar draws eich cysylltiad newydd a dibynadwy.

**Mae'n rhaid i chi weithredu i alluogi band eang cyflym iawn**

Bydd eich gwasanaeth band eang presennol yn parhau'r un fath oni bai eich bod yn uwchraddio i becyn band eang cyflym iawn.

**Gwiriwch osodiad presennol eich cyfrifiadur**

Efallai bod eich offer yn gallu cysylltu i fand eang cyflym iawn, ond efallai bod angen ei uwchraddio i wneud y defnydd gorau o'r llif data ychwanegol. Unwaith y bydd cyflymderau llinell yn peidio â bod yn ffactor gyfyngedig, gallai cyflymderau prosesu fod yn gyfyngydd.

## Ystyriwch symud y ffonau i VOIP

Mae systemau Protocol Llais dros y Rhyngrwyd (VOIP) yn defnyddio eich cysylltiad band eang cyflym iawn a gall weithio'n fwy effeithiol, costio llai ac ychwanegu pwrpas. Cymerwch olwg ar ein Canllaw VOIP ar ein gwefan.

## Cyflwynwch bolisi gweithio hyblyg

Gall gweithio hyblyg wella cynhyrchiant mewn rhai busnesau, cynyddu eich potensial am amrywiaeth a rhoi mwy o le yn eich swyddfa i ehangu. Sicrhewch fod yr holl weithwyr yn deall y telerau gweithio hyblyg a monitrwch gynhyrchiant i sicrhau bod manteision go iawn yn cael eu cyflawni.

## Monitrwch y manteision

Mesurwch eich cynhyrchiant cyn gosod i sicrhau eich bod yn gallu mesur a deall effeithiau'r cysylltiad newydd.

## Parhewch i fonitro'r farchnad a'ch busnes

Wrth i'ch anghenion newid a'r dechnoleg barhau i wella, sicrhewch eich bod yn gwybod a oes angen i chi newid cyflenwyr neu dechnoleg, a gwnewch hynny mewn proses a reolir. Mae gwasanaethau cwmwl yn golygu nad ydych wedi'ch clymu i ddefnyddio meddalwedd a chaledwedd drud, a gallwch newid eich darpariaeth gwasanaeth yn seiliedig ar anghenion eich busnes.

# Cyflymu Busnesau Cymru

I ategu'r broses o gyflwyno band eang cyflym iawn ledled Cymru, gallwch gael cyngor ar beth allwch ei wneud unwaith y bydd ar gael i chi, a beth allwch ei wneud yn y cyfamser, i sicrhau bod eich busnes yn cael y mwyaf o fand eang cyflym iawn.

- Tyfu eich busnes
- Cynyddu effeithlonrwydd
- Hybu cynhyrchiant
- Gostwng eich costau

Am ragor o wybodaeth ac i lwytho i lawr eich Canllawiau 'Sut i...' YN RHAD AC AM DDIM, ewch i:

www.business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy

Ffôn: 03000 6 03000

Cadwch yn gyfredol – dilynwch ni ar:

Busnes Cymru Business Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government